Hawdd ei ddeall

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
The Independent Commission on the Constitutional Future of Wales

# Dyfodol Cymru

## Edrych ar sut y dylai Cymru gael ei rhedeg







Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Y Comisiwn Annibynn ar Ddyfodolol Cyfansoddiadol Cymru**'.

**Rhagfyr 2023**

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i’w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu.



Mae’r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae’r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 11**.

Lle mae’r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Y Comisiwn Annibynn ar Ddyfodolol Cyfansoddiadol Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** https://www.llyw.cymru/y-comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru

**E-bost:** **ComisiwnYCyfansoddiad@llyw.cymru**

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols_403527247

# Cynnwys

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma** ........ **2**

**Cyflwyniad** ........ **4**

**Beth mae pobl wedi ei ddweud** ........ **5**

Diogelu datganoli ........ 7

Beth sy'n digwydd y tu allan i Gymru ........ 9

**Geiriau Anodd** ........ **11**

# Cyflwyniad

Rydyn ni'n cael ein galw yn **Gomisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**.

**Mae gennym ni ddau amcan**:



1. Edrych ar opsiynau ar gyfer sut mae Cymru'n cael ei rhedeg a'i chysylltiadau gyda'r DU.



2. Edrych ar yr holl opsiynau ar gyfer sut y dylai **democratiaeth** yng Nghymru gael ei rhedeg er lles pobl Cymru.




**Democratiaeth** ydy'r system lle mae pobl yn pleidleisio dros bwy maen nhw eisiau bod mewn grym.



Mae'n bwysig iawn siarad am yr holl opsiynau yn agored.

# Beth mae pobl wedi ei ddweud




Fe wnaethon ni ofyn i bobl Cymru sut maen nhw’n gweld dyfodol ein gwlad.



Mae hyn yn ein helpu i ddeall sut mae pobl yn gweld sut mae pethau’n gweithio nawr. A sut y gallai Cymru gael ei rhedeg yn y dyfodol.



Mae’r opsiynau ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar y tri prif syniad yma:



- Mae Cymru yn cael ei rhedeg fel ag y mae nawr ond gyda mwy o bwerau (rydyn ni’n galw hyn yn ddatganoli gwell)




- Bod rhai pynciau yn cael eu penderfynu yn gyfan gwbl yng Nghymru ac eraill yn gyfan gwbl gan lyworaeth y DU (rydy ni’n galw hyn yn DU Ffederal)




- Bod Cymru’n dod yn gwbl annibynnol o’r DU.



Mae llawer o bobl yn teimlo nad oes ganddyn nhw unrhyw ddylanwad ar beth mae'r llywodraeth yn ei wneud.

Rydyn ni yn credu bod angen i dri peth ddigwydd i wneud ein **democratiaeth** yn gryfach:



1. Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod mwy o gymunedau'n cael cyfle i ddweud eu dweud. Gellid sefydlu panel i ddod o hyd i'r ffordd orau o wneud hyn.



2. Mae hefyd yn bwysig i bobl gael eu dysgu mwy am sut mae gwleidyddiaeth yn effeithio arnyn nhw.



3. Fe ddylai Llywodraeth Cymru sefydlu prosiect lle mae grŵp o bobl yn ysgrifennu datganiad ar sut y dylai llywodraeth gael ei rhedeg.



4. Mae'n rhaid bod digon o arian i wneud yn siŵr bod y newidiadau yma yn gweithio'n iawn.

# Diogelu datganoli



Mae **datganoli** yn meddwl bod gan Gymru fwy o reolaeth dros sut mae'n cael ei rhedeg. Mae'n meddwl bod gan lywodraeth y DU lai o reolaeth dros rai pethau.



Ers **Brexit**, dydy Llywodraeth y DU (San Steffan) ddim bob amser wedi dilyn y rheolau am **ddatganoli** a Chymru.

Rydyn ni wedi rhoi opsiynau ar gyfer amddiffyn **datganoli**. Dyma nhw:



1. Fe ddylai Llywodraeth Cymru ofyn i bob un o 4 Llywodraeth y DU gydweithio mewn ffordd mwy cyfartal.




2. Fe ddylai Llywodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y DU basio deddfau newydd am newidiadau i **ddatganoli**.

Mae'n meddwl y byddai angen i lywodraeth y DU siarad â'r llywodraethau eraill cyn gwneud newidiadau i **ddatganoli**.




3. Fe ddylai Llywodraeth Cymru gael mwy o reolaeth dros reoli ei chyllideb.




4. Llywodraeth Cymru ddylai reoli'r heddlu a'r gwasanaethau cyfiawnder, nid Llywodraeth y DU. Mae hyn yn gallu digwydd dros amser.



5. Fe ddylai Llywodraeth Cymru reoli gwasanaethau rheilffyrdd sy'n cael eu rhedeg ar hyn o bryd gan Adran Drafnidiaeth y DU.



6. Fe ddylai llywodraethau'r DU a Chymru sefydlu grŵp i edrych ar y ffordd orau o reoli ynni. Fe fydd hyn yn helpu Cymru i ddod yn **sero-net**.



Mae **sero net** yn meddwl nad ydy'r tanwydd rydyn ni'n ei ddefnyddio yn achosi i'r blaned gynhesu. Mae tanwydd fel olew a nwy yn achosi sylwedd o'r enw **carbon**. Mae hyn yn cynhesu ac yn niweidio'r blaned. Mae sero net yn meddwl nad ydyn ni yn gwneud gormod o **garbon**.



7. Fe ddylai Llywodraeth Cymru a'r DU gytuno bod gan Gymru lais cryfach ar **ddarlledu**. Mae hyn yn meddwl sut mae radio a theledu yn cael eu rheoli.




8. Mae angen y newidiadau hyn ar frys i ddiogelu **datganoli**, pa bynnag ddewis y mae pobl yn ei wneud am yr opsiynau yn y tymor hir.


## Beth sy'n digwydd y tu allan i Gymru



Dydy pobl ddim yn gallu gwneud penderfyniadau am sut mae Cymru'n cael ei rhedeg, heb wybod beth sy'n digwydd yng ngweddill y DU.



Rydyn ni wedi edrych ar opsiynau ar gyfer sut mae pob gwlad yn gallu cael eu rhedeg. Beth fyddai'r newidiadau yma yn ei feddwl?




Y flwyddyn diwethaf, fe wnaethon ni adroddiad am 3 opsiwn ar gyfer sut y gellid rhedeg Cymru.




Rydyn ni wedi edrych yn agosach ar yr opsiynau yma.



Rydyn ni yn credu bod pob opsiwn yn gallu gweithio. Mae cryfderau a gwendidau gyda phob un.




Fyddwn ni ddim yn dweud pa opsiwn sydd orau oherwydd ei fod yn dibynnu ar nifer o bethau.




Er enghraifft, faint o bwysigrwydd rydych chi’n ei roi i wahanol feysydd. Neu faint o risg y mae pobl eisiau ei chymryd.



Dydyn ni ddim yn gallu gwneud y penderfyniad yma. Mae angen i’r pleidiau gwleidyddol a’r cyhoedd benderfynu hyn.



Fe ddylid trafod yr holl opsiynau. Mae angen meddwl am y peth gorau i Gymru.



Mae angen i bobl gael digon o wybodaeth fel eu bod nhw yn gallu gwneud dewisiadau da.

# Geiriau Anodd

## Democratiaeth

Dyma'r system lle mae pobl yn pleidleisio dros bwy maen nhw eisiau i fod mewn grym.

## Datganoli

Mae hyn yn meddwl bod gan Gymru fwy o reolaeth dros sut mae'n cael ei rhedeg. Mae'n meddwl bod gan lywodraeth y DU lai o reolaeth dros rai pethau.

## Sero Net

Mae sero net  yn meddwl nad ydy'r tanwydd rydyn ni'n ei ddefnyddio yn achosi i'r blaned gynhesu. Mae tanwydd fel olew a nwy yn achosi sylwedd o'r enw carbon. Mae hyn yn cynhesu ac yn niweidio'r blaned. Mae sero net yn meddwl nad ydyn ni yn gwneud gormod o garbon.